Estyn
Rhagoriaeth i bawb - Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yr ymweliad
# Lefel y dilyniant: mesurau arbennig

**Ysgol Min-Y-Ddol**
**Lon Plas Kynmaston**
**Cefn Mawr**
**Wrecsam**
**LL14 3PA**

**Dyddiad yr ymweliad: Mawrth 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Iechyd ar Waith
Cyrraedd y Nod - The Corporate Standard
Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd - Green Dragon Environmental Standard

Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Glyn Roberts | Arolygydd Cofnodol |
| Iwan Roberts | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Min Y Ddol wedi gwneud digon o gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd yn Rhagfyr 2011.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r ysgol o unrhyw weithgarwch dilynol.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Codi safonau ysgrifennu estynedig disgyblion ar draws y cwricwlwm

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth

Mae'r disgyblion yn cael amrywiaeth o gyfleoedd erbyn hyn i ddatblygu eu gallu i ysgrifennu'n estynedig ar draws ystod o bynciau'r cwricwlwm. Yn sgil llunio proffiliau disgyblion, a phortffolio ysgrifennu, mae gan athrawon well dealltwriaeth o'r cynnydd y mae disgyblion yn ei wneud yn eu gwaith ysgrifenedig. Erbyn hyn, mae'r ddarpariaeth yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau ysgrifennu ar draws yr ysgol.

Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau ysgrifennu. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer ohonynt yn llunio darnau i wahanol bwrpasau sy'n cynnwys dilyniant o frawddegau ac yn gwneud defnydd priodol o atalnodi sylfaenol. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion mwy abl bob amser yn cael eu herio i ysgrifennu'n estynedig.

Bu cynnydd amlwg yng ngallu disgyblion cyfnod allweddol 2 i ysgrifennu'n fwy estynedig yn y ddwy iaith. Mae medrau trawsieithu disgyblion hynaf yr ysgol yn datblygu'n dda. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion ymwybyddiaeth gadarn o nodweddion y gwahanol ffurfiau ysgrifenedig. Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud defnydd priodol o baragraffau ac yn atalnodi eu gwaith yn gywir. Mae gafael llawer o ddisgyblion ar gystrawennau sylfaenol yn y Gymraeg yn gadarn a'u sillafu wedi datblygu yn y ddwy iaith. Mae disgyblion yn dechrau defnyddio medrau ailddrafftio yn briodol i wella cynnwys a chywirdeb eu gwaith. Mae llawysgrifen a chyflwyniad gwaith lleiafrif y disgyblion yn flêr.

### Argymhelliad 2: Sicrhau bod disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol sy'n deall sut maent yn dysgu, a'r hyn sydd angen ei wneud i wella eu gwaith

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n dda i fod yn ddysgwyr annibynnol. Maent yn gweithio'n annibynnol mewn parau a grwpiau yn hyderus ac yn cefnogi dysgu ei gilydd yn briodol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn datblygu eu medrau ymchwilio'n dda. Mae buddsoddiad diweddar yr ysgol mewn gliniaduron yn sicrhau bod disgyblion yn cael mwy o gyfleoedd i gywain gwybodaeth o'r we ac yn cyflawni ystod briodol o dasgau ymchwiliol ar draws y pynciau. Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn ymroi i'w dysgu pan fyddant yn gweithio fel unigolion neu mewn grwpiau.

Mae trefn o bennu targedau i helpu disgyblion i wella eu gwaith yn datblygu'n briodol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2. Mae'r targedau erbyn hyn yn fwy penodol a heriol. Serch hyny, nid yw disgyblion hynaf yr ysgol yn cymryd rhan ddigon gweithredol o ran pennu eu targedau, nac ychwaith yn adolygu eu cynnydd yn eu herbyn yn ddigon cyson.

Mae polisi marcio'r ysgol wedi cael ei adolygu'n ddiweddar ac mae gwaith ysgrifenedig y disgyblion yn cael ei farcio'n rheolaidd ac mewn dull cyson. Mae'r sylwadau gan athrawon yn nodi'n glir yr hyn sydd angen i ddisgyblion ei wneud i wella ansawdd a chywirdeb y gwaith.

**Argymhelliad 3: Codi lefelau presenoldeb y disgyblion**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn

Mae'r ysgol wedi gweithio'n galed i godi lefelau presenoldeb. Mae patrymau presenoldeb disgyblion yn cael eu dadansoddi'n fanwl a gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o'r swyddog lles i weithio gyda theuluoedd. Mae presenoldeb da yn cael ei hyrwyddo'n llwyddiannus drwy godi ymwybyddiaeth disgyblion o'u lefelau presenoldeb, ynghŷd â'r system wobrwyo.

O ganlyniad i'r mentrau hyn, mae lefelau presenoldeb wedi gwella'n sylweddol, gyda chynnydd arwyddocaol o tua phedwar pwynt canran i 95% rhwng haf 2011 a Mehefin 2012. Mae'r ffigwr hwn yn debygol o gymharu'n ffafriol â ffigurau ysgolion tebyg ar sail data cymharol y llynedd.

**Argymhelliad 4: Sicrhau bod cynlluniau gwaith yr ysgol gyfan yn ateb gofynion yr ystod llawn o ddisgyblion, gan gynnwys datblygu eu medrau**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn

Mae'r ysgol wedi adolygu'r cynlluniau gwaith yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2, gan roi sylw da i gydlynu'r cynllunio tymor hir ar sail ysgol gyfan. Gwnaed hyn yn effeithiol trwy ddefnyddio rhaglenni masnachol pwrpasol. Mae hyn wedi adeiladu ar y gwaith blaenorol a chryfhau'r dilyniant ym mhrofiadau dysgu'r disgyblion. Mae'r pennaeth yn monitro ansawdd y cynllunio wythnosol ar draws yr ysgol. Rhoddir sylw penodol mewn cyfarfodydd staff i faterion sy'n codi, sy'n hybu cynllunio effeithiol ar y cyd.

Yn gyffredinol, mae cynlluniau yn gwahaniaethu'r gweithgareddau dysgu yn briodol ar gyfer disgyblion yn ôl oed neu allu. Mae'r cynlluniau yn nodi'n glir y dilyniant yn y medrau. Mae'r ysgol wedi cynllunio ar gyfer gweithredu strategaeth lythrennedd newydd ar gyfer Medi 2013.

**Argymhelliad 5: Gwella ansawdd yr addysgu a'r asesu ar draws yr ysgol trwy ddileu'r diffygion a nodwyd**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn

Roedd ansawdd yr addysgu a welwyd yn ystod yr ymweliad monitro diweddaraf ar draws yr ysgol yn gyson dda. Yn gyffredinol, mae'r gweithgareddau yn ysgogol ac

yn adeiladu ar brofiadau blaenorol y disgyblion. Mae cwestiynu effeithiol yn annog disgyblion i feddwl drostynt eu hunain. Mae'r tasgau a osodir yn wahaniaethol ac ran amlaf yn berthnasol ar gyfer gwahanol allu ac oedran.

Mae rhaglenni cyfrifiadurol yn cael eu defnyddio'n effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion yn fanwl ac yn rheolaidd. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r ysgol yn datblygu proffiliau dysgu unigol ar gyfer pob disgybl ac yn olrhain eu cynnydd yn fanwl. Mae staff wedi cymryd rhan mewn gweithgarwch safoni a chymedroli yn fewnol ac fel clwstwr o ysgolion lleol.

Mae proffiliau dysgu unigol ar waith yng nghyfnod allweddol 2, ac fe ddefnyddir system electronig yn briodol i nodi cynnydd disgyblion yn dymhorol. Yn ddiweddar, mae'r disgyblion yn cael mwy o gyfleoedd i asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion yn rheolaidd. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau gwaith disgyblion.

**Argymhelliad 6: Sefydlu proses drylwyr o hunan-arfarnu a chynllunio gwelliant sy'n cynnwys holl rhan-ddeiliaid yr ysgol, ac sy'n arwain at gynllun datblygu sy'n canolbwyntio'n glir ar godi safonau a gwella'r ddarpariaeth**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth

Hyd yma, fe seiliwyd cynlluniau gwella'r ysgol ar y cynllun ôl-arolygiad gan roi blaenoriaeth briodol i weithgareddau sy'n mynd i'r afael â'r argymhellion. Lluniwyd amserlen briodol ar gyfer cwblhau'r hunanarfarniad cyntaf ers yr arolygiad. Mae trefniadau effeithiol ar gyfer canfod barn rhieni a dysgwyr yn eu lle. Mae'r ysgol hefyd wedi dadansoddi data perfformiad 2012 ac wedi nodi blaenoriaethau gwella priodol yn codi o hynny.

Mae'r ysgol wedi casglu a choladu tystiolaeth uniongyrchol am safonau ac ansawdd o ystod o ffynonellau eraill. Bellach, mae'r ddogfen hunanarfarnu yn adnabod yn briodol gryfderau'r ysgol a'r hyn sydd angen ei wneud i wella.

Mae'r corff llywodraethol yn monitro'r cynnydd yn erbyn bwriadau'r cynllun gweithredu ôl-arolygiad. Mae hyder a gallu'r llywodraethwyr i ddefnyddio data i gloriannu perfformiad yr ysgol yn cynyddu, ac maent wedi dechrau herio perfformiad yr ysgol yn briodol. Fodd bynnag, nid yw rôl y staff a'r corff llywodraethol o ran llunio'r adroddiad hunanarfarnu wedi datblygu yn llawn hyd yma.

**Argymhelliad 7: Adeiladu systemau cyfathrebu clir ac amserol gyda rhieni**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn

Mae rhieni Ysgol Min y Ddol yn chwarae rhan flaenllaw ym mywyd a gwaith yr ysgol ac mae ymdeimlad cryf o berthyn yn nodwedd amlwg. Sefydlwyd nifer o bartneriaethau buddiol sydd wedi cyfrannu'n sylweddol at wella'r cyfathrebu â'r rhieni. Mae rhieni yn cynorthwyo â gweithgareddau megis darllen ac ymweliadau addysgol. Sefydlwyd dosbarthiadau coginio a dysgu Cymraeg i rieni, yn ogystal â chymdeithas 'Cyfeillion Min y Ddol'. Mae'r partneriaethau hyn yn llwyddiannus iawn fel cyfrwng o gyfathrebu gyda'r rhieni.

Mae’r ysgol yn cyfathrebu’n rheolaidd â’r rheini drwy gylchlythyron wythnosol sy’n eu hysbysu am ddigwyddiadau a gwaith yr ysgol. Mae’r ysgol yn y broses o lunio gwefan ysgol i gyfoethogi’r bartneriaeth hon. Gwneir defnydd effeithiol iawn o’r dechnoleg fodern ar gyfer cyfathrebu â’r rhieni o ddydd i ddydd. Mae llawlyfr ysgol yn ddeniadol ac yn llawn gwybodaeth berthnasol am fywyd a gwaith yr ysgol. Caiff y rhieni wybodaeth berthnasol am gynnydd eu plentyn yn dymhorol.

Gwahoddir y rhieni yn wythnosol i fynychu gwasanaeth gwobrwyo ar fore dydd Gwener i ddathlu llwyddiannau’r disgyblion. Mae’r ysgol hefyd wedi sefydlu clwb brecwast yn yr ysgol, gyda hanner y disgyblion yn ei fynychu’n rheolaidd.

**Argymhelliad 8: Sicrhau bod holl ddogfennaeth yr ysgol yn cyfarfod â’r gofynion statudol**

Aethpwyd i’r afael â’r argymhelliad hwn yn llawn

Mae’r corff llywodraethol wedi derbyn ystod o bolisïau ysgol dros y cyfnod ers yr arolygiad ac wedi eu hadolygu’n llwyddiannus. Mae’r polisïau statudol bellach wedi eu diweddaru a’u mabwysiadu gan y llywodraethwyr a rhaglen addas yn eu lle i’w hadolygu yn ôl yr angen. Mae trefniadau priodol yn eu lle i ddarparu adroddiad blynyddol gan y llywodraethwyr i rieni sy’n bodloni’r gofynion yn llawn.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal a gwella ar y cynnydd hwn, dylai’r ysgol barhau i weithio ar yr argymhellion sydd heb eu cyflawni’n llawn hyd yma.